
Asesiad o sylwedd y newid yn sgil BritBox

Y berthynas rhwng BritBox a gweithgareddau
Gwasanaeth Cyhoeddus y BBC

PENDERFYNIAD DROS DRO:

Dyddiad cyhoeddi: 19 Gorffennaf 2019

Dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion: 12 Awst 2019

1. Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn esbonio ein penderfyniad dros dro ynghylch a yw rhan y BBC yn BritBox, sef gwasanaeth fideo ar-alw drwy danysgrifio ar y cyd ag ITV, yn cael ei ystyried yn 'newid sylweddol' yn ei weithgareddau masnachol.

Pan fydd y BBC yn cymryd rhan mewn gweithgareddau newydd neu wahanol iawn, mae Siarter y BBC yn mynnu bod angen ystyried a yw'n newid sylweddol i'w weithgareddau masnachol. Os felly, byddai angen archwilio'r newid yn fanwl cyn ei bwrw ymlaen ag ef.

Aeth Bwrdd y BBC ati i asesu rhan arfaethedig y BBC yn BritBox, a phennu nad oedd yn sylweddol. O dan y Siarter, mae'n rhaid i Ofcom ystyried y cwestiwn hwn hefyd, fel rhan o'n rôl i ddiogelu cystadleuaeth.

Crynodeb o'r casgliad rydym yn ei ystyried

Does dim risg sylweddol y bydd rhan arfaethedig y BBC yn BritBox yn gwyrddroi'r farchnad nac yn creu mantais gystadleuol annheg. Ein rôl benodol yw ystyried a fydd hyn yn digwydd o ganlyniad i'r berthynas rhwng gweithgareddau masnachol y BBC, a fyddai'n cynnwys rhan y BBC yn BritBox, a'i weithgareddau sy'n cael arian cyhoeddus ('Gwasanaeth Cyhoeddus' y BBC). Byddwn yn monitro rhan y BBC yn y fenter newydd yn ofalus gan ddefnyddio'r mesurau diogelu sydd gennym ar waith eisoes er mwyn rheoleiddio'r ffin rhwng y Gwasanaeth Cyhoeddus a gweithgareddau masnachol y BBC.

Felly, rydym yn ystyried penderfynu nad yw BritBox yn newid sylweddol i weithgareddau masnachol y BBC. Os byddwn yn cadarnhau'r penderfyniad hwn, byddai'n golygu y gallai'r BBC fwrw ymlaen i fod yn rhan o BritBox heb asesiad pellach o dan y Siarter.

Rydym yn bwriadu cyhoeddi ein penderfyniad terfynol erbyn dechrau mis Medi. Rydym yn croesawu sylwadau ar ein hasesiad erbyn 12 Awst.